# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 19 Ionawr 2023

Amser: 09.30 - 14.52

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/13176

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS<br>Russell George AS |
| Tystion: | Sally May, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg<br>Darren Hughes, Conffederasiwn GIG Cymru<br>Alwyn Jones, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru<br>Dave Street, Association of Directors of Social Services (ADSS)<br>Jon Rae, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)<br>Lis Burnett, Cyngor Bro Morgannwg<br>Anthony Hunt, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen<br>Llinos Medi, Cyngor Sir Ynys Môn<br>Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol<br>Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf |

| | |
|---|---|
| | Strategol, Llywodraeth Cymru<br><br>Emma Watkins, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br><br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br><br>Georgina Owen (Ail Glerc)<br><br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br><br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br><br>Joanne McCarthy (Ymchwilydd)<br><br>Owen Holzinger (Ymchwilydd) |

## Cofrestru (09.00-09.15)

## Rhag-gyfarfod preifat - Anffurfiol (09:15-09:30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid,

1.2 Roedd Russell George AS yn bresennol ar gyfer eitemau 1 a 2 yn dirprwyo ar ran Peter Fox AS. Roedd Peter Fox MS yn bresennol yn ystod gweddill y cyfarfod.

## 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24: Sesiwn dystiolaeth 6

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Sally May, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg; Darren Hughes, Cyfarwyddwr, Conffederasiwn GIG Cymru; Alwyn Jones, Llywydd, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru); a Dave Street, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel rhan o'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24.

## Egwyl (10.30-10.40)

## 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24: Sesiwn dystiolaeth 7

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cycmru, y Cynghorydd Anthony Hunt, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; y Cynghorydd Llinos Medi, Arweinydd Cyngor Ynys Môn; a'r Cynghorydd Lis Burnett, Aweinydd Cyngor Bro Morgannwg fel rhan o'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 5, 7 ac 8; a'r cyfarfod nesaf.

4.1 Derbyniwyd y cynnig

## 5 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law

## Cinio (11.55-12.45)

## 6 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24: Sesiwn dystiolaeth 8

6.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys; ac Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth fel rhan o'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24.

6.2 Cytunodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i ddarparu:

- Gwybodaeth am y gyfradd benthyca y mae Llywodraeth Cymru yn ei chael gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.

6.3 Dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y byddai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn darparu gwybodaeth am y canlynol:

- Sefyllfa ariannol Byrddau Iechyd Lleol
- Sut y gall y GIG fod yn fwy effeithlon;
- I ba raddau y mae'r Byrddau Iechyd Lleol wedi manteisio ar fentrau buddsoddi i arbed a mentrau cysylltiedig eraill i wella effeithlonrwydd ynni.

## 7 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24: Trafod y dystiolaeth / Y prif faterion

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law a'r prif faterion

## 8 Trafod Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2022

8.1 Trafododd y Pwyllgor y rheoliadau treth.